

# Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2020-21

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaeth Ynni
Energy Service

Cefnogi ymdrech Cymru i greu economi sero net llwyddiannus
Supporting Wales' drive to a successful net zero economy

# Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

## Ein heffaith

Mae gan Lywodraeth Cymru dargedau uchelgeisiol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chreu ynni adnewyddadwy sy’n eiddo i bobl leol.

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i’r sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol i weithio tuag at gyflawni’r targedau hyn.

Gwnaethom barhau i weithredu’n llwyddiannus drwy gydol pandemig COVID-19 yn 2020-21 a helpu i gyflymu prosiectau lleihau carbon yn ystod y cyfnod hwn, drwy ddarparu cymorth arbenigol i sefydliadau sector cyhoeddus a chymunedau lleol ledled Cymru.

## Effaith gyffredinol Gorffennaf 2018 – Mawrth 2021

Erbyn mis Mawrth 2021, gwnaethom gyrraedd carreg filltir sylweddol, gan weithio gyda grwpiau cymunedol a chyrff cyhoeddus i sicrhau buddsoddiad o £102 miliwn ar gyfer effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a cherbydau allyriadau isel iawn

## Arbed 432,000 o dunelli o $CO_2$

Mae hynny’n cyfateb i’r un swm o $CO_2$ ag y mae **800 cilomedr sgwâr o goed yn ei amsugno** mewn blwyddyn, sef ardal sy’n fwy nag Ynys Môn


Cynhyrchu £212 miliwn o incwm lleol ac arbedion

**Ymrwymo i 32.6MW** o gapasiti ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru

Mae hynny’n ddigon o drydan i bweru **9,400 o gartrefi yng Nghymru…**

…neu’n ddigon o baneli solar i orchuddio cae Stadiwm Principality **56 gwaith**





Rydym wedi cefnogi:

**408** o brosiectau

**22** o awdurdodau lleol

| | |
|---|---|
| **Pŵer solar** 156 o brosiectau | **Ynni gwynt** 30 o brosiectau |
| **Effeithlonrwydd ynni** 148 o brosiectau | **Rhwydweithiau gwres a gwres adnewyddadwy** 25 o brosiectau |
| **Ynni dŵr** 12 o brosiectau | **Goleuadau stryd effeithlon** 37 o brosiectau |

# Ein cyflawniadau yn 2020-21

Gwnaethom barhau i weithio'n gyflym ac, er gwaethaf yr heriau a grëwyd gan COVID-19:

**gosodwyd prosiectau gwerth £35 miliwn o ynni effeithlonrwydd ac ynni adnewyddadwy**

**gan gynnwys 9.1MW o ynni adnewyddadwy.**

Lle y bo modd, defnyddiodd y prosiectau hyn gontractwyr a gosodwyr lleol i gwblhau'r gwaith, gan barhau i gefnogi economi Cymru yn ystod COVID-19.



## Gwelwch ein prosiectau gosodedig

drwy wylio'r fideo byr a grëwyd gennym ar gyfer Wythnos Hinsawdd Cymru**.




**Mae'r wybodaeth am brosiectau yn gywir ym mis Tachwedd 2020.



**Buddsoddiad o £43 miliwn** mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a fflyd, gan gefnogi:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **8** awdurdod lleol | **13** grŵp cymunedol a chyngor cymuned | **3** bwrdd iechyd | **1** brifysgol |

**£23 million**
mewn cyllid di-log gan Raglen Gyllido Cymru ar gyfer:

| | | |
|---|---|---|
| Goleuadau stryd LED | Effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau | Ynni adnewyddadwy |

**49** o brosiectau effeithlonrwydd ynni newydd

**51** o brosiectau ynni adnewyddadwy newydd

**Disgwylir i'r gosodiadau hyn ddarparu £79 miliwn mewn cynilion ac incwm i'r sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol dros eu hoes**

Bydd y prosiectau y gwnaethom eu cefnogi yn **arbed 172,500 o dunelli o $CO_2$**

Mae hynny'n **cyfateb i'r un swm o $CO_2$** ag y mae **210,000 o systemau paneli solar domestig** yn ei arbed bob blwyddyn


## Cynllunio ynni rhanbarthol

# Deall ein hanghenion ynni yn y dyfodol

Rydym wedi cydweithio â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru i gwblhau tair strategaeth ynni ranbarthol, gan weithio gyda channoedd o bobl ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol.

Rydym wedi bod yn cefnogi De Orllewin Cymru i ddatblygu eu strategaeth ynni ranbarthol, y disgwylir iddi gael ei chwblhau yn ystod haf 2021. Mae'r strategaeth ynni hon yn nodi llwybrau tuag at system ynni rhanbarthol carbon sero-net – yn cwmpasu pŵer, gwres a thrafnidiaeth. Gwnaethom asesu'r effeithiau economaidd posibl y gall y newid hwn eu cael o gymharu â 'busnes fel arfer' ym mhob rhanbarth.

**Dyma ddyfyniadau o strategaeth Canolbarth Cymru.**




## Gweledigaeth

*"Cyflawni system ynni ddi-garbon sy'n cyflawni buddiannau cymdeithasol ac economaidd, yn dileu tlodi tanwydd, yn cysylltu Canolbarth Cymru â gweddill y DU mewn ffordd well, ac yn cyfrannu at waith datgarboneiddio ehangach y DU."*

**Bydd angen gwario £2.5 biliwn i gyflawni gweledigaeth ynni Canolbarth Cymru**



# Blaenoriaethau Canolbarth Cymru

- Mynd ar drywydd gwaith datgarboneiddio stoc dai ac adeiladau'r rhanbarth
- Gweithio'n rhagweithiol i sicrhau bod gridiau trydan a nwy yn y rhanbarth yn addas ar gyfer dyfodol cwbl ddi-garbon.
- Hybu'r defnydd o ynni adnewyddadwy drwy ddulliau cynhyrchu a storio newydd
- Cyflymu'r newid i drafnidiaeth ddi-garbon gan wella cysylltedd y rhanbarth ar yr un pryd
- Datblygu a manteisio ar botensial amaethyddiaeth i gyfrannu at ynni di-garbon
- Meithrin arloesedd i gefnogi datgarboneiddio a thwf glân

## Effeithiau economaidd amcangyfrifedig cyflawni'r weledigaeth ynni***

| | Cynhyrchu trydan | Effeithlonrwydd ynni domestig | Gwres domestig |
|---|---|---|---|
| **Swyddi gros**<br>swyddi uniongyrchol sy'n gysylltiedig â phrosiect neu ymyriad penodol | | | 800 |
| **Swyddi net**<br>effaith net y cynnydd mewn swyddi ochr yn ochr â'r swyddi a gollir wrth drawsnewid o un dechnoleg i un arall | 15,900 | 7,600 | |
| **Gwerth Ychwanegol Gros (GYC)**<br>y swm mae busnesau, diwydiannau neu sectorau unigol yn ei gyfrannu at yr economi. | £1.9b | £450m | £96m |

*"Bydd angen ymdrech sylweddol i gyflawni'r weledigaeth hon ar bob lefel o'r Llywodraeth, Diwydiant a chymunedau – ond rydym mewn sefyllfa dda i arwain ar nifer o fentrau yng Nghanolbarth Cymru. Byddwn yn ceisio sefydlu strwythurau ymgysylltu newydd a gallu penodedig i symud y gwaith hwn yn ei flaen o ddifrif dros y misoedd nesaf."*

**Rosemarie Harris ac Ellen ap Gwynn**
Cyngor Powys

## Effeithlonrwydd ynni

# Cefnogi ymgyrch y sector cyhoeddus tuag at sero-net

### Prosiectau effeithlonrwydd ynni a osodwyd yn 2020-21

Buddsoddiad o £29 miliwn mewn inswleiddio, systemau rheoli, goleuadau, awyru, gwresogi carbon isel, adeiladu ynni adnewyddadwy integredig a phrosiectau solar wedi'u gosod ar do.

Gosod goleuadau stryd LED newydd ar draws **15** o sefydliadau

**Re:fit Cymru**
Darparu arbedion cost ac ynni gwarantedig ar gyfer adeiladau ac asedau cyhoeddus

## Ysgogiad COVID-19

Rhan o adferiad gwyrdd COVID-19 Llywodraeth Cymru

Cymorth ychwanegol i gyflymu **prosiectau fflyd cerbydau** ac **effeithlonrwydd ynni** yn y sector cyhoeddus.

### Cefnogwyd 17 o sefydliadau

gan gynnwys:

- Awdurdodau lleol
- Byrddau Iechyd a'r Gwasanaethau Brys
- Colegau a Phrifysgolion





## Cyngor Sirol Blaenau Gwent

**ASTUDIAETH ACHOS**

- Uwchraddio effeithlonrwydd ynni ar draws 20 o safleoedd gan gynnwys Ysgol Gynradd Willowtown a Chanolfan Chwaraeon Ebbw Vale
- Buddsoddiad o £4 miliwn gan Raglen Ariannu Cymru ar gyfer goleuo, gwresogi, rheolyddion ac adeiladu ynni adnewyddadwy integredig
- Lleihau biliau ynni'r cyngor £9 miliwn dros oes y prosiect
- Arbed 26,500 tunnell o $CO_2$, sy'n cyfateb i hedfan o Gaerdydd i Sydney 8,000 o weithiau

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**ASTUDIAETH ACHOS**

Sicrhau cyllid ar gyfer:

- Gosod paneli solar ffotofoltäig ar 9 safle cymunedol. Sicrhau cyllid ar gyfer:
- Prosiectau pwmp gwres yn Ysbyty Cymunedol Aberteifi a'r Cylch
- Goleuadau LED mewn ystadau
- Maes parcio solar wedi'i gysylltu â'r adeilad yn ysbyty De Sir Benfro
- Mae prosiectau gwres carbon isel ac effeithlonrwydd ynni pellach yn yr arfaeth



> *Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth rhagorol ac arbenigedd amhrisiadwy i'r Bwrdd Iechyd dros y flwyddyn ddiwethaf i gyflawni nifer o brosiectau ffotofoltäig yn ogystal â sicrhau arian grant ar gyfer amrywiaeth o brosiectau effeithlonrwydd ynni. Bydd y cymorth parhaus hwn yn bwysig er mwyn pennu cwmpas a chyflwyno cynlluniau pellach i wireddu ein dyheadau o ran datgarboneiddio.*

**Rob Elliott, Cyfarwyddwr Ystadau**
Rheoli Cyfleusterau a Chyfalaf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ynni adnewyddadwy

# Manteisio ar ein hadnoddau naturiol

Cymorth penodedig ar gyfer prosiectau trydan adnewyddadwy ledled Cymru Cyflymu prosiectau o'r cam cysyniadol i'r cam cwblhau

## Ein llwyddiannau

**Prosiectau ynni adnewyddadwy newydd yn 2020-21**

**Buddsoddiad wedi'i sicrhau o £13 miliwn**

**I greu 13.6MW o brosiectau trydan adnewyddadwy newydd**

**Arbed 57,000 o dunelli o $CO_2$ dros eu hoes**

Mae hyn yn cyfateb i **yrru beic modur o Landudno i Abertawe 1,400,000 o weithiau**

**Incwm / buddion lleol dros oes y prosiect o £33 miliwn**





## Cyngor Sir y Fflint

ASTUDIAETH ACHOS

Gwnaethom weithio gyda Chyngor Sir y Fflint i droi hen safle tirlenwi a dau safle tir llwyd yn ffermydd solar.

- 9,000 o baneli solar wedi'u gosod
- Cynhyrchu 3.5MWh o drydan bob blwyddyn, digon i bweru 900 o gartrefi yng Nghymru.

> *Mae Cyngor Sir y Fflint yn ddiolchgar am y cymorth parhaus a ddarperir drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i nodi safleoedd addas ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a datblygu'r achos busnes dros brosiectau o'r fath.*

**Andy Farrow**
Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi), Cyngor Sir y Fflint



## Egni Co-op

ASTUDIAETH ACHOS

Rydym wedi parhau i weithio gydag Egni Co-op a Chyngor Dinas Casnewydd i gwblhau'r aräe mwyaf o baneli solar ar doeon yng Nghymru ar Felodrom Cenedlaethol Cymru Geraint Thomas.

- Bydd 1,726 o baneli solar yn cyflenwi 63% o'r trydan a ddefnyddir gan yr adeilad mewn blwyddyn arferol.
- Gosodwyd llifoleuadau LED effeithlon ar drac y felodrom hefyd, i safon rasys proffesiynol.
- Enillwyd gwobr Alan Clark ar gyfer ynni lleol/cymunedol yn Solar & Storage Live 2020.

> *Mae hyn wedi bod yn brosiect partneriaeth anhygoel. Casnewydd oedd y Cyngor cyntaf i weithio gyda ni, ac ers hynny mae'r ymrwymiad cynnar hwnnw, ynghyd ag arian grant a chymorth gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, wedi ein galluogi i ehangu ledled Cymru.*

**Dan McCallum**
Cyd-gyfarwyddwr Egni Co-op, cwmni cydweithredol yng Nghymru sy'n tyfu gyda thros 1000 o aelodau

## Fflyd cerbydau

# Ar y ffordd i deithio carbon isel

- Gweithio gydag 18 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru
- Cyflymu'r newid i fflyd cerbydau allyriadau isel iawn
- Casglu data ar danwydd a milltiredd er mwyn argymell pa gerbydau y dylid prynu cerbydau allyriadau isel iawn yn eu lle, gan leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a'r defnydd o ynni
- Creu fflyd cerbydau sero net erbyn 2030
- Cyngor ar seilwaith ar gyfer fflyd cerbydau trydan, gan gefnogi penderfyniadau buddsoddi

### Dysgwch fwy drwy wylio'r fideo byr hwn






# Ein llwyddiannau

Prynwyd **156 o gerbydau trydan** ledled Cymru, gwerth dros £5 miliwn

Darparwyd dros £1 filiwn o grantiau tuag at gost prynu cerbydau trydan

Helpwyd i ddyrannu £7 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer **seilwaith gwefru cerbydau trydan** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd




## Cyngor Sir Fynwy

**ASTUDIAETH ACHOS**

> *"Cefnogodd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru Sir Fynwy gyda chanllawiau caffael a chyllid rhannol ar gyfer pedwar cerbyd trydan. Caiff dau ohonynt eu defnyddio i gludo prydau ysgol wedi'u paratoi'n ffres i ysgolion yn Sir Fynwy a bydd bws mini llawr isel yn gweithredu 'gwasanaeth llawr gwlad', gan ddarparu cludiant y mae angen dybryd amdano ar gyfer preswylwyr sy'n agored i niwed a phreswylwyr hŷn. Gwnaeth y rhain gymryd lle hen gerbydau diesel, a byddant yn helpu i wella ansawdd yr aer, lleihau allyriadau carbon a lleihau costau ynni".*

**Debbie Jackson**
Rheolwr Fflyd, Cyngor Sir Fynwy



Gwasanaeth **Ynni**
**Energy** Service

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cefnogi ymdrech Cymru i greu economi sero net llwyddiannus
Supporting Wales' drive to a successful net zero economy

**Dysgwch fwy am y ffordd y gall Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru helpu eich cymuned neu'ch sefydliad sector cyhoeddus:**

Gwefan **Cliciwch yma**

Ebost **ymholiadau@gwasanaethynni.cymru**

**@_energyservice**

**welsh-government-energy-service**

*Ni chafodd cyfran fach (~8%) o'r prosiectau a sicrhaodd fuddsoddiad yn ystod y cyfnod hwn eu datblygu.

O blith y gwerth £102M o brosiectau a gefnogwyd gennym, nid yw gwerth ~£7.7M o brosiectau yn weithredol mwyach ar ôl sicrhau cyllid, am resymau amrywiol.

Ar gyfer prosiectau a oedd wedi sicrhau cyllid gan Raglen Gyllido Cymru, mae'r cyllid hwn a ryddhawyd wedi'i ddefnyddio i ariannu prosiectau datgarboneiddio eraill.

Mae arbedion a buddiannau'r prosiect wedi'u hamcangyfrif dros eu hoes ddisgwyliedig.

***Nid yw'n bosibl nodi'n union ble bydd y gwahanol fathau o swyddi wedi'u lleoli yn ddaearyddol. Mae rhai swyddi - fel cynhyrchu paneli solar - yn debygol ar hyn o bryd mae lleoli y tu allan i'r rhanbarth - ac eraill - fel swyddi gosod a chynnal a chadw yn fwy tebygol o fod wedi'u lleoli'n lleol. Bydd angen ymdrech sylweddol i sicrhau bod cymaint o swyddi â phosib wedi'u lleoli yn y rhanbarth.